

NOSC 2026 Rhif 37

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tal-y-bont i Dre Taliesin, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2026

Gwnaed 25 Chwefror 2026

Yn dod i rym 2 Mawrth 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tal-y-bont i Dre Taliesin, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Mawrth 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

NWSI 2026 No. 37

ROAD TRAFFIC

The A487 Trunk Road (Tal-y-bont to Tre Taliesin, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2026

Made 25 February 2026

Coming into force 2 March 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Tal-y-bont to Tre Taliesin, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2026 and this Order comes into force on 2 March 2026.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 2 Mawrth 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o’r Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o’r Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Chwefror 2026

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â Maes-y-Deri, Tal-y-bont hyd at ei chyffordd â’r C1031 (arwydd ‘Dolybont’) yn Nhref Taliesin, Ceredigion.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’r eiddo a elwir ‘Golden Key’ hyd at ei chyffordd â Maes-y-Deri, Tal-y-bont, Ceredigion.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 2 March 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in paragraph 1 of the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in paragraph 1 of the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

25 February 2026

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from its junction with Maes-y-Deri, Tal-y-bont to its junction with the C1031 (signposted ‘Dolybont’) at Tre Taliesin, Ceredigion.

The length of the trunk road that extends from the property known as ‘Golden Key’ to its junction with Maes-y-Deri, Tal-y-bont, Ceredigion.